**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (42)**

# AGENDA

**Pleidleisiau a Thrafodion ar gyfer dydd Mercher, 14 Ionawr**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd Cwestiwn 2 yn ôl.

**2.26pm**
**Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**
Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd Cwestiynau 2 a 7 yn ôl.

**2.44pm**
**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**
**Grwpiwyd Cwestiynau 1 a 3 ac fe’u gofynnwyd.**

**2.54pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Ariannu Llywodraeth Leol**

**3.25pm**
**Pwynt o Drefn - Alun Ffred Jones**

**3.26pm**
**Dadl ar y Papur Gwyrdd ar Blant**
*NDM1776 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn ailddatgan y flaenoriaeth y mae'n ei rhoi i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed;

2. yn mabwysiadu'n ffurfiol Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail i wneud polisïau yn y maes hwn;

3. yn croesawu bwriad Llywodraeth San Steffan i gyflwyno Mesur Plant, a fydd yn darparu

mesurau deddfwriaethol ychwanegol ar gyfer datblygu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol.**

**Gwelliant 1**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu Pwynt 1 a rhoi yn ei le;

"Yn gresynu at ddiffyg ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i blant a phobl ifanc Cymru sy'n agored i niwed, fel y dangosodd nifer o adroddiadau Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno mesurau amddiffyn cadarn ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru sy'n agored i niwed."

**Gwelliant 2**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:

"ond yn gresynu at ddiffyg ymrwymiad Llywodraeth Lafur y Cynulliad i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, fel y dangosodd ei methiant i ymarfer ei phwerau statudol er mwyn gosod cyfarwyddiadau ar awdurdod lleol a oedd yn methu."

**Gwelliant 3**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le;

"Yn gresynu at y ffordd y mae'r Gweinidog dros Blant yn San Steffan a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru yn diystyru plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fanteisio i'r eithaf ar y pwerau a gyflwynir gan y Mesur Plant er mwyn mynd i'r afael â'r problemau y mae plant mewn gofal yn eu hwynebu."

**Gwelliant 4**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn manteisio i'r eithaf ar y pwer y mae'r Mesur Plant yn ei roi iddi o ran rhoi swyddogaethau statudol ehangach i

Gomisiynydd Plant Cymru."

**Gwelliant 5**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn gresynu bod Llywodraeth y DU yn parhau i amddiffyn cosbedigaeth resymol ac nad yw wedi cymryd unrhyw gamau sylweddol tuag at atal cosbi plant mewn modd corfforol o fewn teuluoedd."

**Gwelliant 6**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw am gryfhau pwerau Comisiynydd Plant Cymru er mwyn datblygu ei swyddogaeth."

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 11; Ymatal 8; Yn erbyn 35; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 32; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 19; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 41; Ymatal 3; Yn erbyn 9; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd Gwelliant 6**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig**
O blaid 46; Ymatal 8; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

***Trafodwyd y 2 eitem nesaf gyda'i gilydd a phleidleisiwyd arnynt ar wahân***

**4.27pm**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
*NDM1774 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 6.5 a 16.1, yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ionawr 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig**

**Dadl ar y Cod Safonau diwygiedig ar gyfer Aelodau**
*NDM1775 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo'r Cod Ymddygiad newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ionawr 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig**
O blaid 46; Ymatal 3; Yn erbyn 2; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.56pm**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty**
*NDM1773 John Marek (Wrecsam)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 36.12, yn nodi Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2003.

**4.59pm**
**Cynigiodd John Marek gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.18 i ymestyn y ddadl 20 munud.**
**O blaid** 40; Ymatal 0; Yn erbyn 2; Cyfanswm 42
**Estynnwyd y cyfarfod**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig**
O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.20pm**
**Dadl fer - NDM1772 Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.42pm**

**************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 13 Ionawr 2004

- Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig)(Sir Gaerfyrddin) 2004 - LD2539
- Gorchymyn Deddf Lechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 6)(Cymru) 2004 - LD2540

### Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 13 Ionawr 2004

- LC806 - Rheoliadau’r Cynllun Ffermio Organig (Cymru) (Diwygio) 2004 - LD2541
- LC807 - Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2542
- LC808 - Gorchymyn clwy Affricanaidd y Moch (Cymru) 2003 - LD2543
- LC809 - Rheoliadau (Graddio) Carasau Moch (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2544
- LC810 - Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2004 - LD2545
- LC811 - Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Gaerfyrddin) 2004 - LD2546